OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1181

# Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Apelau) (Cymru) 2018

## RHAN 5

## Amrywiol

### Tystiolaeth a chostau

**13.**—(1) Mae is-adrannau (2) a (3) o adran 250 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) (ymchwiliadau lleol: tystiolaeth a chostau) yn gymwys gyda'r addasiadau a ddisgrifir ym mharagraff (2) i ymchwiliad o dan y Rheoliadau hyn fel y maent yn gymwys i ymchwiliadau lleol o dan yr adran honno.

(2) Mae'r addasiadau fel a ganlyn—

(a) mae unrhyw gyfeiriad at y person a benodir i gynnal yr ymchwiliad i'w ddarllen fel cyfeiriad at y person a benodwyd gan Weinidogion Cymru o dan y Rheoliadau hyn;

(b) mae unrhyw gyfeiriad at awdurdod lleol i'w ddarllen fel cyfeiriad at gorff cymeradwyo.

(3) Mae adran 322C o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**2**) (costau: Cymru) yn gymwys mewn perthynas ag apêl o dan y Rheoliadau hyn fel y mae'n gymwys i apêl y cyfeirir ato yn yr adran honno.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (1) a (3), rhaid i gostau gwrandawiad neu ymchwiliad a gynhelir o dan y Rheoliadau hyn gael eu talu gan Weinidogion Cymru.

(**1**) 1972 p. 70. Diwygiwyd adran 250 gan adrannau 37, 38 a 46 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p. 48), gan adran 49(2) o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 (p. 63), ac Atodlen 12 iddi, a chan Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1989 (p. 43).

(**2**) Mewnosodwyd adran 322C gan adran 49 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4).